Adroddiad ar

# Cylch Meithrin ID Hooson

Ysgol ID Hooson
Rhosllanerchrugog.
Wrexham
LL14 2DX

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin ID Hooson

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin I.D. Hooson |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dyfan Jones |
| Person â gofal | Rebecca Tobin |
| Nifer y lleoedd | 48 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 o blant tair-blwydd oed a 6 o blant pedair-blwydd oed |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener o 9:00yb tan 3:00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ail-gofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ail-gofrestru |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/05/2026 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw’r lleoliad yn cydymffurfio gyda’r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i’w gwella, a dylai’r Unigolyn Cyfrifol roddi sylw iddynt.

Bydd gwybodaeth am bob diffyg cydymffurfiaeth wedi’ gynnwys yn yr Adroddiad Gryno ar Weithredu a Gwella, fydd yn cael ei anfon ar wahan i’r adroddiad gan AGC.

## Argymhellion

A1 Cryfhau’r defnydd o arsylwadau ac asesiadau i gynllunio profiadau dysgu pwrpasol sy’n adeiladu ar wybodaeth a medrau pob plentyn

A2 Sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu arferion a gweithgareddau y lleoliad yn llawn

A3 Mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus, yn teimlo’n ddiogel ac wedi ymgartrefu’n dda. Maent yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu. Mae’r rhan fwyaf yn gyfathrebwyr hyderus ac maent yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn cyfarch ymarferwyr a'u ffrindiau wrth gyrraedd y lleoliad gyda gwên. Yn ogystal, maent yn siarad am eu hoff weithgareddau’n frwdfrydig, sy’n cynnwys creu stori ddychmygol gyda ffigurau'r byd bach, sy’n sbarduno sgyrsiau bywiog am eu teuluoedd a’r hyn sy’n gyfarwydd iddynt.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn teimlo’n ddedwydd a diogel oherwydd y berthynas gynnes sy’n bodoli rhyngddynt a’r ymarferwyr. Mae rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol fel golchi a sychu eu dwylo cyn amseroedd bwyd ac ar ôl chwarae tu allan. Maent yn mynd at ymarferwyr yn rhwydd i wneud ceisiadau ac am gysur pan fo’r angen yn codi. Mae’r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni’r ymarferwyr ac yn mwynhau eu gwahodd i'w chwarae. Er enghraifft, fe wnaethant adeiladu trac trên gyda’i gilydd ac  arweiniodd hyn at blant yn defnyddio amrywiaeth o bropiau i greu stori am deithio ar drên.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n dda gyda’i gilydd. Maent yn derbyn canmoliaeth gyson gan ymarferwyr ac yn ymateb yn dda gan ddangos eu bod yn dechrau dysgu rhannu a chyd-chwarae. Er enghraifft, maent yn helpu ei gilydd i lenwi bwcedi o feintiau gwahanol wrth chwarae yn y twba dŵr a chymryd eu tro i gymysgu mwd gyda sbeisys a pherlysiau. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf o blant yn dysgu am garedigrwydd tuag at eraill yn dda. Er enghraifft, maent yn golchi teganau anifeiliaid fferm yn y bath wrth sgwrsio’n ddeallus gydag ymarferwyr ynglŷn â gofalu am anifeiliaid.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymchwilio eu hamgylchedd gyda chwilfrydedd. Er enghraifft, maent yn mwynhau gweithio’n ddiwyd fel tîm i ddatrys problemau wrth defnyddio ewyn lliw a brics meddal tegan i adeiladu tŷ.  Maent wrth eu bodd yn archwilio byd natur gan ddefnyddio chwyddwydr i archwilio pryfed. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau creadigol wrth greu lluniau yn y pridd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus, sy’n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau priodol wrth iddynt ymgymryd mewn ystod o  brofiadau chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyllell yn dda i dorri lemonau ac orennau wrth chwarae yn y gegin fwd a mwynhau creu  siapiau diddorol wrth baentio gyda changhennau coed.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae’r rhan fwyaf o blant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn unigol. Maent yn archwilio’n hyderus ac yn datblygu’n ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau datblygu eu creadigrwydd a'u dychymyg wrth archwilio'r gegin fwd. Maent yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu yn effeithiol wrth iddynt cymryd rolau lle maent yn paratoi bwydydd gwahanol. Maent yn addasu a thrafod syniadau’n hyderus wrth i’r chwarae ddatblygu. Mae tua hanner y plant yn defnyddio iaith esboniadwy’n effeithiol ac yn gofyn cwestiynau pwrpasol i’w gilydd. Mae’r rhan fwyaf yn gwrando’n ofalus ac yn medru dilyn cyfarwyddiadau syml drwy’r Gymraeg. Er bod y rhan fwyaf o blant yn dod o aelwydydd di-Gymraeg, trwy gyfleoedd dyddiol, mae’r lleiafrif yn dechrau meithrin hyder i ailadrodd a defnyddio geiriau a chystrawen syml a chyfarwydd yn y Gymraeg.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymuno’n frwdfrydig â chaneuon gan ddangos diddordeb a mwynhad o lyfrau, er enghraifft drwy drafod llyfrau am drychfilod neu wahodd ymarferwyr i ddarllen iddynt yn y gornel cartref. Mae medrau marcio cynnar mwyafrif y plant yn datblygu’n dda. Maent yn hyderus i greu marciau ar fyrddau bach digidol ac ar arwynebau mawr â mop a brwsys llawr yn yr awyr agored.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol mawr cadarn. Maent yn dewis adnoddau’n rhydd i greu rhwystrau ac i herio eu hunain i fynd o un pen i’r llall trwy gerdded yn ofalus a chadw cydbwysedd. Mae llawer o blant yn hyderus wrth gymryd risg gan ddringo ffrâm yn fedrus a diogel. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf yn arddangos medrau modur mân effeithiol trwy dorri ffrwythau â chyllyll a defnyddio gratiwr yn y gegin fwd i greu siocled poeth.

Mae llawer o blant yn defnyddio adnoddau i arbrofi ac i ddatrys problemau’n effeithiol. Er enghraifft, maent yn ceisio darganfod y ffordd cyflymaf o gario tywod o un ardal i’r llall heb orfod mynd nôl ac ymlaen sawl tro gyda rhaw fach, pan yn adeiladu wal.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio eu medrau mathemategol yn naturiol wrth chwarae, megis mesur, cynhwysedd a chymharu meintiau. Mae llawer o blant yn archwilio priodweddau siapiau wrth rolio sffêr o un ffrind i’r llall ar y carped. Maent yn cyfrif gwahanol wrthrychau ac yn cymharu cynhwysedd mewn ardal synhwyraidd yn yr awyr agored. Mae ychydig o blant yn dechrau defnyddio geiriau fel ‘llawn’ a ‘mwy’ yn eu chwarae.

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau digidol ac yn hyderus i ddefnyddio offer go iawn wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio llechi cyfrifiadurol wrth gymryd rôl mam yn gwneud ‘gwaith’ yn y gornel cartref ac wrth ddefnyddio datgelydd metel i chwilio am allweddi cudd yn y tywod.

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da wrth feithrin eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn mwynhau creu golygfa traeth yn y toes gan ddefnyddio darnau rhydd naturiol. Maent yn dangos cynnydd amlwg dros amser trwy ailymweld â gweithgareddau a gwella eu syniadau blaenorol. Mae llawer o blant yn mwynhau cymryd rhan mewn chwarae dychmygus ac yn dangos empathi ac ymdeimlad o ofal tuag at ei gilydd a’r babi yn y gornel cartref.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn hybu’r plant i fod yn weithgar ac i chwarae allan yn yr awyr iach yn rheolaidd. Maent yn atgoffa’r plant yn gyson i olchi eu dwylo sy’n cefnogi datblygiad eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo plant i gymdeithasu yn ystod amseroedd bwyd ac yn eu cynorthwyo i fwyta'n iach gan sicrhau bod dŵr yfed ffres a llefrith ar gael yn hwylus iddynt. Mae’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu sy'n addas i oedran y plant. Maent yn cynnal ymarferion tân ac yn cofnodi presenoldeb yr ymarferwyr a’r plant yn unol a’r ganllawiau. Mae damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi’n glir ac mae llofnod y rhieni’n dangos eu bod wedi eu hysbysu o’r digwyddiad. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau’n syth. Mae perthynas hyfryd rhyngddynt ac maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu eu  llwyddiannau yn frwdfrydig. Mae'r ymarferwyr yn darparu cymorth sensitif ac ymatebol i bob plentyn. Maent yn ymateb i anghenion unigol y plant yn dda gan sicrhau amgylchedd cynhwysol. Mae ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gweithwyr proffesiynol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol plant.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant ac yn bodloni eu hanghenion unigol yn bwrpasol. Maent yn asesu'r plant er mwyn sylwi ar unrhyw anghenion dysgu penodol neu ymddygiadol, a maent yn defnyddio'r arsylwadau hyn er mwyn cynllunio y camau nesaf pe bai angen. Mae ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i’r plant archwilio deunyddiau celf, megis paent a defnyddiau naturiol. Mae’r gweithgareddau hyn yn annog mynegiant personol ac yn helpu’r plant i ddatblygu dychymyg bywiog. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd amrywiol a gwerthfawr i'r plant

ddysgu am y byd o'u cwmpas. Maent yn dangos lluniau o'r plant yn ymweld â swyddfa heddlu a swyddfa bost lleol sy'n gwella eu dealltwriaeth o'u hardal leol yn llwyddiannus ac yn creu ymdeimlad o berthyn i'w cynefin.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn paratoi amgylchedd dysgu a chwarae cynhwysol, ysgogol ac atyniadol tu mewn a thu allan, sy'n ymateb yn briodol i ddiddordebau'r plant. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau effeithiol i feithrin chwilfrydedd ac annibyniaeth, gan alluogi plant i symud yn rhydd a dilyn eu diddordebau. Mae perthnasoedd rhwng ymarferwyr a phlant yn gynnes ac yn ofalgar iawn sy'n meithrin ymdeimlad o ddiogelwch a hyder ymhlith y plant.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant a maent yn adnabod cryfderau ac anghenion unigol yn effeithiol. Trwy ddull cynllunio ymatebol, maent yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n seiliedig ar ddiddordebau'r plant ac yn cyfateb yn addas i'w cam datblygu.

Mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau parhaus i lywio'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw rhain bob amser yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar gynnydd medrau plant unigol. O ganlyniad, nid yw'r cynllunio yn ddigon bwriadus i sicrhau dilyniant clir a chamau nesaf ar gyfer pob plentyn. Mae ymarferwyr yn holi plant yn rheolaidd i wirio dealltwriaeth ac i gefnogi eu chwarae. Er hyn, ar adegau, mae'r cwestiynau'n dueddol i fod yn gwestiynau caeedig sy'n atal yr ymarferwyr rhag ymestyn meddwl y plant yn ddigon rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn effeithiol trwy ddefnyddio patrymau, ymadroddion a chaneuon cyfarwydd. Maent hefyd yn atgyfnerthu iaith ac ehangu geirfa plant yn briodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen a marcio cynnar yn gryf. Maent yn defnyddio llyfrau o ansawdd da, gan gyfeirio at luniau i ymestyn dealltwriaeth y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo marcio cynnar trwy brofiadau apelgar i blant farcio ar amrywiaeth o arwynebau gydag ystod o offer.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddatrys problemau a maent yn eu hannog i feddwl. Er enghraifft, caiff plant eu hannog i arbrofi gyda dŵr neu i adeiladu strwythurau yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau digidol plant trwy ddefnyddio offer megis gliniaduron a ffônau symudol yn y gornel cartref.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd llwyddiannus i ddatblygu medrau rhifedd plant. Maent yn eu hannog i gyfrif, mesur a chymharu mewn cyd-destunau ystyrlon. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliannau trwy ddarparu adnoddau

perthnasol yn yr amgylchedd.  Yn ogystal, mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiwylliannau gwahanol trwy ddarparu adnoddau perthnasol yn yr ardaloedd. Maent yn cynnig ychydig o gyfleoedd i drafod ac addysgu plant am amrywiaeth a diwylliannau gwahanol, er nad yw hyn wedi gwreiddio’n llawn eto.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau gwerthfawr sy’n adeiladu’n fwriadus ar fedrau corfforol mawr a mân y plant. Er enghraifft, cânt eu hannog i gymryd risgiau priodol wrth greu a dilyn cwrs antur.

Mae ymarferwyr yn paratoi cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu eu medrau creadigol, trwy ddarparu adnoddau rhydd heb ganlyniadau terfynol rhag tybiedig. Maent yn annog plant i feithrin ymdeimlad o chwilfrydedd tuag at natur yn effeithiol. Er enghraifft, rhoddir gyfleoedd i blant chwilio am drychfilod a sicrhau eu dealltwriaeth o bwysigrwydd i ofalu am eu hamgylchedd a thrin pethau byw â pharch.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod mesurau diogelwch effeithiol ar waith i reoli mynediad i mewn ac allan o’r lleoliad. Mae giatiau wedi'u cloi ac mae cofnod o ymwelwyr yn cael eu cadw. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gwiriadau gwresogi blynyddol yn cael eu cynnal ac mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol.  Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i blant gyrraedd. Maent yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae sy’n ddiogel ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant tu mewn a thu allan i’r adeilad.

Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol sy’n amlinellu’n fras y camau i’w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Er hyn, nid yw’r rhain yn adlewyrchu arferion y lleoliad a’r gweithgareddau yn ddigon clir. Mae’r arweinwyr wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau’n dda. Maent yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn goruchwylio’r plant yn dda ac yn gwybod sut i ymateb i unrhyw argyfwng.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o falchder yn eu plith. Mae amrywiaeth dda o lyfrau ar gael, ac maent yn cael eu harddangos yn drefnus, gan annog y plant i'w darllen. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda. Mae hyn yn galluogi’r plant i symud o gwmpas yn rhydd, gan ddewis i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o deganau, adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o adnoddau naturiol i feithrin medrau’r plant yn llwyddiannus. Mae teganau ac adnoddau wedi eu

gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant, sy’n eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau am yr hyn y maent eisiau defnyddio.

Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod plant yn cael mynediad i'r amgylchedd chwarae awyr agored i wella eu lles a'u medrau corfforol ym mhob tywydd. Maent yn sicrhau bod digon o ddillad ac esgidiau glaw i blant i wneud hynny'n effeithiol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn drefnus ac yn cynnwys amrywiaeth o offer, adnoddau a chyfarpar i feithrin sgiliau corfforol, creadigol a dychmygol y plant. Maent  yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y byd naturiol ac maent wedi trefnu ardaloedd iddynt blannu a thyfu blodau i feithrin eu sgiliau garddio.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Digonol

Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn briodol. Maent yn creu awyrgylch cadarnhaol o waith tîm ac mae ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd yn addas. O ganlyniad mae ethos cartrefol, hapus a chroesawgar yn bodoli. Mae arweinwyr wedi paratoi datganiad o ddiben clir, sy'n hysbysu rhieni a gwarchodwyr am yr hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig. Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau defnyddiol y mae ymarferwyr yn eu dilyn yn addas. Fodd bynnag, nid yw gweithredoedd yr arweinwyr bob amser yn bodloni’r safonau a rheoliadau.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau priodol i arfarnu gwaith y lleoliad a nodi’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella. Gyda chymorth cyson athrawes cefnogi yr awdurdod lleol, mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn cynnal trefniadau hunanwerthuso effeithiol. Mae gwaith tîm yn nodwedd cryf o’r lleoliad, gydag arweinwyr ac ymarferwyr yn rhannu syniadau ac arferion yn ystod cyfarfodydd rheolaidd a sesiynau cynllunio. Maent yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth amrywiol. Caiff y wybodaeth ei thrafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm.

Mae arweinwyr yn sefydlu systemau boddhaol i sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr yn gyfredol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol i fodloni gofynion, wedi’u casglu yn ffeiliau cyflogaeth yr ymarferwyr ac nid yw system oruchwylio a gwerthuso ffurfiol wedi’i hymgorffori’n llawn nac wedi’i chynnal yn rheolaidd. Nid yw'r pwyllgor yn chwarae rhan weithredol i gefnogi arweinwyr i gryfhau'r meysydd hyn. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau Cymraeg ac yn ymrwymo yn llwyr a’r rhaglen priodol i wella Cymraeg yr ymarferwyr. Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau’n briodol ac yn defnyddio grantiau yn llwyddiannus i wella’r ddarpariaeth a chynnydd mewn medrau’r plant.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n briodol gyda rhieni ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd. Yn ddiweddar maent wedi sefydlu tudalen cyfryngau cymdeithasol ac ap pwrpasol i rannu gwybodaeth o brofiadau'r plant gyda rhieni.  Mae arweinwyr yn cydweithio'n briodol gyda nifer o bartneriaethau yn y gymuned. Trwy ymweld â'r siop a'r caffi lleol, mae'r plant yn dewis amrywiaeth o nwyddau'n annibynnol ac yn trin arian wrth dalu'r gwerthwyr. Mae hyn yn datblygu eu medrau llafar, rhifedd ac annibyniaeth yn effeithiol mewn cyd-destun ystyrlon.

Mae gan arweinwyr berthynas agos iawn â'r ysgol lle maent wedi'u sefydlu. Maent yn cynnal sesiynau trosglwyddo llwyddiannus lle mae'r plant yn ymweld â'r ysgol ac yn ymgysylltu â gweithgareddau ar y cyd. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o blant i baratoi yn hyderus i'r cam nesaf yn eu taith ddysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026